Y CYCHWYN CYWIR

Profiad gwaith ar gyfer pobl ifanc:
Iechyd a diogelwch sylfaenol ar gyfer cyflogwyr

HSE
Health & Safety Executive

Mae profiad gwaith yn cyflwyno pobl ifanc i fyd gwaith ac mae'n rhan allweddol a gwerthfawr o'u haddysg. Mae HSE yn gweld hyn fel cyfle gwych i roi sylfaen iechyd a diogelwch da iddynt.

Mae'ch cyfraniad chi fel darparwr profiad gwaith yn cael ei werthfawrogi'n fawr. Bydd y daflen hon yn eich helpu chi, a'r rhai sy'n gyfrifol am brofiad gwaith yn eich cwmni, i wneud yn siŵr bod iechyd a diogelwch pobl ifanc yn cael ei amddiffyn tra byddant yn gweithio gyda chi.

CYFLWYNIAD

Pan fyddwch yn cynnig profiad gwaith i fyfyrwyr mae gennych yr un cyfrifoldebau dros eu hiechyd, diogelwch a'u lles a'r cyfrifoldeb a sydd gennych dros bob aelod o'ch gweithlu. O dan gyfraith iechyd a diogelwch, bydd y myfyrwyr yma yn cael eu hystyried fel eich gweithwyr.

Fel cyflogwr, byddwch eisoes wedi gorfod cynnal asesiad risg. Golyga hyn bod yn rhaid i chi edrych ar beth y gallai achosi niwed i bobl yn eich gwaith, fel eich bod yn gallu barnu a ydych wedi cymryd digon o gamau neu a ddylech wneud mwy i osgoi niwed.

Mae'r daflen hon yn dweud wrthych beth sydd angen i chi ei wneud wrth asesu'r risgiau iechyd a diogelwch i bob un o'r bobl ifanc dan 18 yn eich gweithlu, gan gynnwys myfyrwyr profiad gwaith. Fe fydd hefyd yn rhoi syniad i chi pa fath o gwestiynau y bydd trefnwyr profiad gwaith (a gallai hyn olygu ysgolion) yn debygol o'u gofyn i chi am eich trefniadau iechyd a diogelwch.

Diffiniadau o bobl ifanc a phlant o ran oedran

Mae'n ddefnyddiol gwybod sut mae pobl yn cael eu diffinio o ran oed mewn cyfreithiau iechyd a diogelwch, yn enwedig pan yn ceisio penderfynu beth mae'r person ifanc yn cael ei wneud:

- **person ifanc** yw unrhyw un o dan 18 mlwydd oed (y cyfeirir atynt yn y llyfryn yma fel 'pobl ifanc');
- **plentyn** yw unrhyw un nad yw wedi cyrraedd yr oedran swyddogol eto lle y cânt adael yr ysgol, yn union cyn neu'n union ar ôl eu pen-blwydd yn 16 oed (cyfeirir at hyn yn aml fel oedran isaf gadael ysgol).

ASESU'R RISGIAU

Yn ôl cyfraith iechyd a diogelwch, mae'n rhaid i chi asesu'r risgiau i bobl ifanc o dan 18 oed, **cyn** iddynt gychwyn gweithio/profiad gwaith a dweud wrthynt beth yw'r risgiau.

Hefyd, dylech:

- ystyried bod y bobl ifanc hyn yn debygol o fod yn amhrofiadol, yn anymwybodol o risgiau iechyd a diogelwch ac yn anaeddfed yn gorfforol a meddyliol;
- sefydlu mesurau i reoli'r risgiau a fydd yn cael gwared ohonynt yn llwyr neu'n eu lleihau i'r lefel isaf bosibl;
- gadael i rieni/gwarcheidwaid unrhyw fyfyrwyr (a gweithwyr) o dan yr oedran isaf gadael ysgol wybod am ganfyddiadau allweddol yr asesiad risg a'r mesurau rheoli **cyn** bod y bobl ifanc yn dechrau gweithio/profiad gwaith; a
- cadw cofnod o'r prif ganfyddiadau yn yr asesiad risg, os oes gennych bump neu fwy o weithwyr (gan gynnwys y bobl ifanc ar brofiad gwaith).

Efallai y gallech ddefnyddio neu addasu asesiad risg cyffredinol ar gyfer pobl ifanc sy'n gwneud yr un swydd neu brofiad gwaith. Ond ym mhob achos bydd angen i chi:

- cwmpasu pob nodwedd angenrheidiol sy'n cael eu rhestru ar y dudalen gyferbyn;
- diweddaru'r asesiad risg;
- edrych eto ar y risgiau os bydd gennych reswm i gredu nad yw'r gwreiddiol o werth bellach; a
- cadw mewn cof unrhyw wybodaeth am anghenion y person ifanc a allai gael ei drosglwyddo gan drefnydd y profiad gwaith, yr ysgol neu'r rhieni.

Gallwch ddarganfod mwy am asesiadau risg yn y cyhoeddiadau HSE canlynol:

- *Young people at work: A guide for employers* – sy'n cynnwys cyngor ar beth sydd ei angen a sut y gall cyflogwyr gael cymorth gan drefnwyr wrth hysbysu rhieni/gwarcheidwaid;
- *Five steps to risk assessment* – canllaw byr i helpu busnesau bach i baratoi asesiad risg.

NODWEDDION ARBENNIG YR ASESIAD RISG

Mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i chi ystyried nifer o bwyntiau yn eich asesiad risg **cyn** bod person ifanc yn dechrau gweithio/profiad gwaith.

Ceisiwch edrych ar eich gweithle o lygaid person ifanc. Beth yw'r peryglon y byddant yn eu canfod? Efallai na fyddent wedi tyfu'n llawn – a fyddant yn gweld eu gweithle yn lletchwith a'r offer yn rhy fawr?

Dylech edrych yn arbennig ar:

- sut mae'r gweithle wedi ei gynllunio a'i osod (a'r safle penodol lle byddant yn gweithio);
- pa fath o offer gweithio y byddant yn eu defnyddio a sut y cânt eu trin;
- sut mae'r gwaith yn cael ei drefnu;
- yr angen i asesu a darparu hyfforddiant iechyd a diogelwch;
- natur unrhyw sylwedd ffisegol, biolegol a chemegol y byddant yn cael ei amlygu iddo, pa mor hir ac i ba raddau; ac
- y risgiau o rai peryglon gwaith (gallwch gael gwybodaeth bellach ar natur risgiau penodol i bobl ifanc yn *Young people at work: A guide for employers*. Mae hyn yn cynnwys unrhyw waith na allant ei wneud oherwydd eu hoedran).

Rhaid i chi beidio â gadael i'r person ifanc wneud y gwaith pan fyddwch yn gwybod bod yna risg arwyddocaol er gwaetha'ch ymdrech orau i gymryd bob cam rhesymol i'w reoli.

CANLYNIAD YR ASESIAD RISG

Gall eich asesiad risg ddangos rhai risgiau lle na all pobl ifanc gael eu hamlygu iddynt yn ôl deddfau iechyd a diogelwch.

Mae'n rhaid i chi ddiogelu eich gweithwyr ifanc a myfyrwyr profiad gwaith rhag y risg o ddamwain neu salwch y maent yn annhebygol o'i adnabod oherwydd:

- maent yn amhrofiadol; neu
- nid ydynt wedi cael eu hyfforddi; neu
- efallai na fyddant yn rhoi digon o sylw i ddiogelwch.

Cyfyngiad ar waith

Y rheol gyffredinol yw na ddylid caniatáu i bobl ifanc o dan 18 oed gael gwneud gwaith sydd:

- yn methu cael ei addasu ar gyfer unrhyw gyfyngiad corfforol neu feddyliol y gallai fod ganddynt;
- yn eu hamlygu i sylweddau sy'n wenwynig neu'n achosi canser;
- yn eu hamlygu i ymbelydredd;
- yn ymwneud â gwres, sŵn; neu ddirgryniad eithafol.

Gall pobl ifanc sydd **dros** yr oedran isaf gadael ysgol wneud y gwaith yma o dan amgylchiadau arbennig iawn, sef:

- mae'r gwaith yn angenrheidiol i'w hyfforddiant;
- mae'r gwaith yn cael ei arolygu gan berson cymwys; ac
- mae'r risgiau wedi eu lleihau i'r lefel isaf, i'r graddau y maent yn rhesymol ymarferol.

Ni ddylai plant o dan yr oedran isaf gadael ysgol fyth wneud gwaith sy'n ymwneud â'r risgiau yma p'un a ydynt yn cael eu cyflogi neu'n dilyn hyfforddiant fel profiad gwaith.

HYFFORDDIANT A GORUCHWYLIAETH

Yr adeg y mae pobl ifanc angen hyfforddiant fwyaf yw pan fyddant yn dechrau swydd neu brofiad gwaith. Mae angen iddynt gael eu hyfforddi i wneud y gwaith heb achosi risg iddynt eu hunain ac i eraill.

Mae'n bwysig eich bod yn sicrhau eu bod wedi deall yr hyfforddiant sydd, er enghraifft yn cwmpasu:

- y peryglon a'r risgiau yn y gweithle;
- y mesurau rheoli sy'n cael eu sefydlu er mwyn diogelu eu hiechyd a'u diogelwch;
- cyflwyniad sylfaenol i iechyd a diogelwch, er enghraifft cymorth cyntaf, a gweithdrefnau tân a gadael adeilad.

Bydd pobl ifanc yn wynebu risgiau anghyfarwydd yn y swydd y byddant yn ei gwneud a'u hawyrgylch ac felly maent yn debygol o fod angen mwy o oruchwyliaeth nag oedolion Bydd goruchwyliaeth dda hefyd yn eich helpu i gael syniad clir o'u cynnydd yn y swydd ac i fonitro pa for effeithiol yw eu hyfforddiant. Gallwch ddarganfod mwy am arferion goruchwylio da mewn dau ganllaw defnyddiol sydd wedi eu cynhyrchu gan y Cyngor Dysgu a Sgiliau (gweler yr adran 'Llyfryddiaeth' am wybodaeth).

Gall gweithiwr neu gynrychiolydd undeb llafur iechyd a diogelwch chwarae rôl werthfawr yn gynnar, er enghraifft drwy:

- cyflwyno'r person ifanc i'r gweithle llawn;
- helpu gyda'u hyfforddiant parhaus; a
- rhoi adborth am unrhyw bryder arbennig, yn enwedig oherwydd efallai na fydd y person ifanc yn teimlo'n ddigon hyderus i siarad yn uniongyrchol â'u pennaeth.

CWESTIYNAU POSIB Y GELLID EU GOFYN PAN FYDDWCH YN CYNNIG PROFIAD GWAITH

Mae angen i ysgolion neu drefnwyr profiad gwaith fodloni eu hunain gyda'ch rheolaeth iechyd a diogelwch. Mae hyn yn rhan o'u cyfrifoldebau cyfreithiol tuag at y bobl ifanc maent yn eu hanfon ar brofiad gwaith. Gallwch ddisgwyl iddynt ofyn cwestiynau megis:

- A oes gennych chi bolisi iechyd a diogelwch a sut rydych yn ei weithredu? (Mae'n rhaid iddo fod yn ysgrifenedig os oes gennych bum gweithiwr neu fwy, gan gynnwys rhai ar brofiad gwaith).
- A ydych chi wedi cynnal asesiad risg yn ddiweddar ac a yw'n cwmpasu risgiau arbennig o'r profiad gwaith?
- A ydych chi wedi cymryd y mesurau angenrheidiol i reoli'r risgiau hyn?
- A oes person yn y gweithle wedi'i enwebu i fod yn gyfrifol am y myfyrwyr sydd ar brofiad gwaith?
- Sut y bydd myfyrwyr profiad gwaith yn cael eu goruchwylio ac yn cael hyfforddiant a chyflwyniad ar iechyd a diogelwch?
- A allwch chi lunio cynllun clir o'r profiad gwaith?
- A fyddwch yn darparu unrhyw offer diogelwch personol angenrheidiol?
- A allwch chi wneud trefniadau priodol ar gyfer pobl ifanc ag anghenion arbennig, er enghraifft rhai sydd ag anableddau neu anawsterau dysgu penodol? (Dylai'r trefnydd profiad gwaith roi gwybodaeth lawn ac unrhyw gyngor angenrheidiol i chi ymhell o flaen llaw. Bydd angen i chi newid yr asesiad risg i ystyried hyn.)

Efallai bydd y trefnydd profiad gwaith yn gofyn i chi am bethau eraill sy'n dangos eich bod yn cymryd sylw dyledus i iechyd a diogelwch, er enghraifft:

- A ydych chi wedi cofrestru gyda'r awdurdod gorfodi iechyd a diogelwch priodol? (Gallwch ffonio llinell wybodaeth HSE am fwy o wybodaeth ar sut i wneud hyn – gweler y clawr cefn am fanylion.)
- Beth yw eich systemau i ddelio ag unrhyw ddamweiniau ac argyfwng?
- A ydych chi'n trefnu hyfforddiant ar gamau diogelwch tân i staff a myfyrwyr profiad gwaith?

- A ydych chi'n darparu offer cymorth cyntaf ac yn cadw cofnodion o driniaeth cymorth cyntaf?
- Os oes angen, a oes pobl cymorth cyntaf cymwys ar gael?
- A oes llyfr damweiniau ar gael ac a ydych yn gwybod am eich dyletswyddau cyfreithiol i gofnodi damweiniau?
- A ydych chi wedi cynnal asesiadau o sylweddau a ellir achosi salwch o dan y ddeddf Rheoli Sylweddau Peryglus i Reolau Iechyd 1999?
- A oes gennych yswiriant digonol, gan gynnwys Yswiriant Atebolrwydd y Cyflogwr ac Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus ac yswiriant Cerbyd Modur pan fo angen, ac a yw'r yswiriant yn diogelu myfyrwyr profiad gwaith?
- A ydych chi'n ymgynghori â gweithwyr am iechyd a diogelwch ac a ydych chi wedi penodi gweithiwr i fod yn gynrychiolydd iechyd a diogelwch?

PAN FO'R TREFNYDD PROFIAD GWAITH YN YMWELD Â'CH GWEITHLE

Pan yn ymweld â safle profiad gwaith, bydd y trefnydd profiad gwaith yn chwilio am arwyddion i ddangos eich bod yn talu sylw priodol i iechyd, diogelwch a lles eich gweithwyr. Dylech fod wedi ystyried y ffactorau canlynol yn eich asesiad risg eisoes, er enghraifft:

- cadw tŷ;
- goleuo;
- seddi;
- gwarchod peiriannau;
- diogelwch tân;
- weirio trydanol;
- toiledau a chyfleusterau golchi;
- darparu offer diogelu personol.

Nid yw hon yn rhestr gyflawn ac mae llawer o bethau pwysig eraill i'w hystyried megis pa mor swnllyd y mae'r gweithle.

Gall y trefnydd profiad gwaith ofyn i chi lofnodi cytundeb ysgrifenedig a allai fod o gymorth i ddangos cyfrifoldebau'r ddwy ochr yn glir. Weithiau mae hwn wedi'i gyfuno â chaniatâd gan y rhiant/gwarcheidwad a'r person ifanc. Er enghraifft, ar un llaw gall y rhiant/gwarcheidwad weld eich asesiad risg a'ch mesurau rheoli ac ar yr un pryd gallwch chi weld gwybodaeth, er enghraifft, ar iechyd y myfyriwr.

Gallai'r cytundeb hefyd nodi:

- cynllun gwaith ar gyfer y lleoliad;
- trefniadau ar gyfer cyfarwyddyd a hyfforddiant cyn dechrau'r gwaith; a
- sut y bydd y person ifanc yn cael ei oruchwylio a phwy fydd yn gyfrifol amdano.

LLYFRYDDIAETH

Mae'r cyhoeddiadau canlynol gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ar gael o HSE Books (gweler y clawr cefn am fanylion):

Managing health and safety on work experience: A guide for organisers HSG199 HSE Books 200 ISBN 0 7176 1742 4

Young people at work: A guide for employers HSG165 (Second edition) HSE Books 2000 ISBN 0 7176 1889 7

Management of health and safety at work. Management of Health and Safety at Work Regulations 1999. Approved Code of Practice and guidance L21 (Second edition) HSE Books 2000 ISBN 0 7176 2488 9

Taflen *Five steps to risk assessment* INDG163(rev1) HSE Books 1998 (un copi am ddim neu becynnau o 10 ar werth ISBN 0 7176 17565 0)

Mae'r cyhoeddiadau canlynol gan y Cyngor Dysgu a Sgiliau DfES i'w cael am ddim o Prolog, PO Box 5050, Annesley, Nottingham NG15 0DJ (Ffôn 0845 602 2260 Ffacs: 0845 603 3360):

Improving work experience – A good practice guide for employers DfES canllaw EG1G

Raising standards. Supervising learners' health and safety Cyngor Dysgu a Sgiliau GPS/RS/7

Raising standards. Health and safety supervision of learners in the workplace Cyngor Dysgu a Sgiliau GPS/RS/6

MANYLION PELLACH

Mae cyhoeddiadau ar werth a chyhoeddiadau am ddim yr HSE ar gael i'w harchebu drwy'r post o HSE Books, PO Box 1999, Sudbury, Suffolk CO10 2WA Ffôn: 01787 881165 Ffacs: 01787 313995 Gwefan: www.hsebooks.co.uk (Mae cyhoeddiadau HSE sydd ar werth hefyd ar gael o siopau llyfrau).

I gael gwybodaeth am iechyd a diogelwch, ffoniwch linell wybodaeth HSE ar 08701 545500 Ffacs: 02920 859260 e-bost: hseinformationservices@natbrit.com neu ysgrifennwch at Gwasanaethau Gwybodaeth HSE, Parc Busnes Caerffili, Caerffili CF83 3GG.

Mae'r daflen hon yn cynnwys nodiadau ar arfer da nad yw'n orfodol ond a allai fod o ddefnydd i chi wrth ystyried yr hyn sydd angen i chi ei wneud.

Mae'r daflen hon ar gael mewn pecynnau o 15 ar werth o HSE Books, ISBN 0 7176 2955 4. Mae copïau rhad ac am ddim hefyd ar gael gan Llyfrau HSE.

Gellir atgynhyrchu'r cyhoeddiad hwn am ddim, ac eithrio at ddibenion hysbysebu, ardystio neu werthu. Cyhoeddwyd gyntaf 09/02. Dylid cydnabod y ffynhonnell fel HSE.

INDG364W
Argraffwyd a chyhoeddwyd gan Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
C30 07/04